Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

ARHOLIAD AELODAETH GYFLAWN

PAPUR 2

Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

12 Ebrill 2008

Dwyawr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi cael y papur cywir
- Cyfieithwch y ddau ddarn
- Cewch gyfieithu'r darnau mewn unrhyw drefn
- Peidiwch â chyfieithu ffynhonnell y darn a nodir ar ei ddiwedd

Cyn cyflwyno'ch sgript derfynol

- Sicrhewch fod eich rhif arholi, a'ch rhif arholi'n unig, ar ben pob tudalen o'ch sgript
- Dylech olygu eich gwaith yn fanwl o safbwynt ystyr, cywair, cystrawen a chywirdeb technegol cyn ei gyflwyno

PAPUR 2 CYFLAWN – CYFIEITHU O'R GYMRAEG I'R SAESNEG

Darn 1

Mae rhai'n hoff o frathiad cyfnosau oeraidd y gogledd, yn mwynhau llechu'n gyfforddus allan o'u cyrraedd mewn ystafelloedd sydd â golau trydan, y tu ôl i ffenestri sy'n wlyb gan law. Mi rydw i'n un ohonyn nhw. Mae cysur sylfaenol mewn cysgodi rhag yr elfennau; cynhesu ein dwylo wrth y tân ar ddiwedd prynhawn o aeaf, a'r dref y tu allan yn rhedeg yn ei blaen. Ond mae cysur arall o fod mewn dinas o liw, lle teflir golau dros y toeau a'r waliau a lle bydd ffenestri uchel sy'n llyncu golau'r awyr yn atsain cynhesrwydd byd a adawyd ar ôl y tu allan i gyrion ein hamgylchedd trefol.

O ffenest y fflat ym Mharis, a'r paent gwyn yn disgyn yn gaenennau o'r pren, fe fyddwn i'n edrych allan heibio i'r colomennod, dros y toeau llwydion tua'r awyr lwyd uwchlaw'r ddinas; yno, roedd gwyrth natur y tu hwnt i'n cyrraedd a phryd hynny byddai'n anos osgoi'r teimlad fod llwydni'r ddinas yn ychwanegu at dristwch y frwydr rhwng pobl a'u cynefin. Dim rhyfedd, efallai, mai yn ardaloedd cynnes Môr y Canoldir y ganwyd y ffenomen o ddinas yn ein diwylliant Ewropeaidd ni. Ac mae golau'n newid llawer ar bethau, a'r symud tuag ato'n newid rhywbeth y tu mewn inni.

Dwi wrthi'n cerdded allan o'r Stazione Termini yn Rhufain, heibio i heidiau o bobl sy'n rhedeg i bob cyfeiriad. Dros bennau'r bysiau mae adfeilion coch yn gefndir i goed palmwydd sy'n siglo'n araf yn yr awel foreol. Mae'r awyr las ddigwmwl fel môr o wres yn tywallt i lawr dros y ddinas, lle mae pobl yn cerdded yn ddigyffro a gyrwyr tacsis yn pwyso yn erbyn eu ceir. Yn y cysgod eisteddaf ar fy mhac, gan dynnu fy siaced a cheisio gadael i fymryn o aer leddfu tipyn ar y gwres llethol.

[Addasiad o ran o *Roma – Gwlad fy Nhadau* gan Dafydd Apolloni]

PAPUR 2 CYFLAWN – CYFIEITHU O'R GYMRAEG I'R SAESNEG

Darn 2

Erbyn hyn, mae fy naliadau gwleidyddol wedi newid. Dwi'n dal i fod ar yr asgell chwith, ond yn gymdeithasol ac yn economaidd, dwi'n ystyried fy mod i'n perthyn i'r chwith rhyddfrydol. Er bod gwahanol raddfeydd o sosialaeth, wrth wraidd pob un mae'r syniad y dylai'r llywodraeth geisio rheoli'r economi er mwyn sicrhau tegwch i bawb. Ond mae hanes y ganrif ddiwethaf yn dangos i ni mai economïau aneffeithlon a phydredig ydy economïau sy'n cael eu rheoli. Os ydym o ddifri ynglŷn ag ailddosbarthu cyfoeth, rhaid sicrhau bod cyfoeth yn bod i'w ailddosbarthu. Wrth i economïau sosialaidd bydru, crebachu wnaiff cyfoeth y wlad. Y ffaith anorfod amdani yw mai'r bobl dlotaf a ddioddefai waethaf, ac mai i bocedi'r dosbarth llywodraethol a'u taeogion y llifai'r ychydig arian a oedd ar ôl. Yn y pen draw, methiant sosialaeth yw ei bod hi'n gwneud y gwrthwyneb i'r hyn y bwriadai ei wneud. Yn hytrach na lleihau tlodi, mae'n ei gynyddu.

Ond er bod fy naliadau gwleidyddol wedi newid dros y blynyddoedd, dyw fy edmygedd o lowyr y Tŵr ddim wedi pylu o gwbl. Er y byddai rhai o'r farn bod y gwŷr hynny'n rhai o arwyr sosialaeth Gymreig, dwi'n credu bod eu menter yn dysgu gwers lawer pwysicach i ni. Mae hanes diweddar y Tŵr yn dangos yr hyn y gall unigolion ei wneud heb fynd ar ofyn y wladwriaeth. I mi, maen nhw'n arwyr am iddyn nhw fentro a buddsoddi eu harian eu hunain er mwyn ceisio sicrhau gwaith, yn hytrach na mynd ar ofyn neb arall.

Yr hyn y mae llwyddiant y Tŵr yn ei ddangos yw y gall mentergarwch a chyfiawnder cymdeithasol weithio law yn llaw. Dyw mentro ddim yn golygu sathru ar bawb arall.

Gall pobl sy'n mentro gyfrannu at adfywio cymunedau yn hytrach na'u dinistrio, a gall mentergarwch fod yn rhinwedd asgell-chwith yn ogystal ag yn un asgell-dde.

[Addasiad o ran o Erthygl Olygyddol *Barn*, Chwefror 2008]